Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# City Skin Doctor
# Dyddiad y gweithgarwch: 30 Mehefin 2021

Dyddiad cyhoeddi: 4 Awst 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80195-756-4

© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o City Skin Doctor yng Nghaerdydd fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r gwasanaeth yn darparu amrywiaeth o driniaethau laser, gan gynnwys gwaredu blew, adfywio'r croen a thriniaethau cysylltiedig eraill. Darperir yr holl driniaethau i oedolion sydd dros 18 oed.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull wedi'i deilwra newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â'r Rheolwr Cofrestredig ar 30 Mehefin 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am y gwasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod y trefniadau atal a rheoli heintiau a'r trefniadau glanhau yn effeithiol er mwyn cadw staff, cleifion ac ymwelwyr yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i staff, cleifion ac ymwelwyr, a sut rydych yn sicrhau eich bod yn cynnal urddas y cleifion? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed o ganlyniad i COVID-19?
- Sut rydych yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut rydych yn sicrhau bod y staff wedi cael hyfforddiant priodol er mwyn iddynt ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau y caiff triniaeth ei darparu mewn modd diogel ac effeithiol, gan gynnwys y ffordd y caiff cyfarpar laser ei gynnal a'i gadw yn briodol?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Yr asesiadau risg/archwiliadau amgylcheddol diweddaraf
- Polisïau/gweithdrefnau diogelwch tân, gan gynnwys asesiad risg diogelwch tân
- Cofnodion hyfforddi
- Tystysgrifau yswiriant atebolrwydd

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig amrywiaeth o gamau roedd y gwasanaeth wedi'u cymryd mewn ymateb i'r pandemig er mwyn helpu i hyrwyddo amgylchedd diogel. Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol wrth eistedd yn yr ardaloedd aros, gweithredu polisi drws ar gau er mwyn rheoli llif cleifion, a gosod sgrin yn ardal y dderbynfa er mwyn diogelu'r staff.

Roedd yn gadarnhaol nodi y bu pwyslais ar gynnal ymgyngoriadau â chleifion o bell yn ystod y pandemig. Mae hyn yn helpu i leihau'r cyswllt â chleifion a'r risg sy'n gysylltiedig â throsglwyddo COVID-19.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod asesiad risgiau tân wedi'i gynnal yn y 12 mis diwethaf a bod y diffoddwyr tân wedi'u gwasanaethu'n ddiweddar.

Gwnaethom gadarnhau bod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ddilys ar gael.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Er bod asesiad risg amgylcheddol wedi'i gynnal, prin oedd y manylion ynddo am y camau a gymerwyd gan y gwasanaeth mewn ymateb i'r pandemig. Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod camau yn cael eu cofnodi'n briodol mewn asesiad risg cynhwysfawr.

Roedd y polisi diogelwch tân yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol a rhaid iddo gael ei adolygu yn unol â'r rheoliadau. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod hyfforddiant diogelwch tân yn cael ei ddarparu'n fewnol i'r staff. Fodd bynnag, y tro diwethaf i'r rheolwr cofrestredig gwblhau hyfforddiant diogelwch tân oedd 2015. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau hyfforddiant gloywi os yw'r gwasanaeth am barhau i ddarparu hyfforddiant mewnol.

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Polisïau rheoli heintiau cyffredinol a pholisïau penodol i COVID-19
- Yr asesiadau risg/archwiliadau rheoli heintiau diweddaraf

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig amrywiaeth o gamau roedd y gwasanaeth wedi'u cymryd mewn ymateb i'r pandemig er mwyn helpu i hyrwyddo arferion atal a rheoli heintiau da. Roedd y rhain yn cynnwys newid yr holl ddodrefn yn yr ystafelloedd aros fel bod modd ei lanhau'n effeithiol, glanhau'r cadeiriau triniaeth yn drylwyr cyn ac ar ôl triniaethau, a sicrhau bod y staff a'r cleifion yn defnyddio PPE priodol bob amser.

Nodwyd bod y cleifion yn gorfod cwblhau holiadur sgrinio COVID-19 yn electronig cyn eu hapwyntiad a bod angen iddynt ateb cwestiynau am symptomau unwaith eto ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Ychwanegodd y rheolwr cofrestredig fod gofyn i'r cleifion wisgo PPE priodol i'w hapwyntiad a bod cyfleusterau hylendid dwylo priodol yn cael eu darparu.

Roedd y camau hyn yn cael eu cefnogi gan restr wirio COVID-19 i'r staff gyfeirio ati a chawsom wybod bod y newidiadau diweddaraf o ran atal a rheoli heintiau yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd staff er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Roedd y polisi atal a rheoli heintiau yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol ac yn cyfeirio at sefydliad trydydd parti. Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y polisi yn cael ei adolygu mewn ymateb i COVID-19 a'i fod yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i'r gwasanaeth. Dylid ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyswllt agos a chanllawiau atal a rheoli heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Yn 2015 y cafodd hyfforddiant lefel 1 atal a rheoli heintiau ei gwblhau ddiwethaf gan y rheolwr cofrestredig, ac roedd hyfforddiant atal a rheoli heintiau yn cael ei ddarparu'n fewnol i'r staff. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau hyfforddiant gloywi os yw'r gwasanaeth am barhau i ddarparu hyfforddiant mewnol.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC i gynrychiolwyr y gwasanaeth sut roeddent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Cofnodion hyfforddi'r staff
- Polisïau a gweithdrefnau diogelu

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Caiff nifer o wiriadau eu cynnal er mwyn sicrhau bod staff newydd yn addas. Gwelsom enghreifftiau o dystysgrifau hyfforddiant a chadarnhad bod gwiriadau DBS wedi'u cynnal.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cyfarfodydd staff wythnosol yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r diweddariadau diweddaraf o ran y clinig ac unrhyw newidiadau o ran COVID-19.

Cawsom wybod bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau asesiad risg COVID-19 ar gyfer y gweithlu. Mae hyn yn helpu i sicrhau eu bod yn gallu mynychu'r gwaith yn ddiogel yn seiliedig ar eu hamgylchiadau unigol.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y polisi diogelu a anfonwyd i AGIC yn cael ei ddefnyddio i baratoi hyfforddiant staff. Fodd bynnag, roedd y polisi yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol. Hefyd, yn 2015 y cafodd yr hyfforddiant ei gwblhau gan y rheolwr cofrestredig ddiwethaf. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau hyfforddiant gloywi os yw'r gwasanaeth am barhau i ddarparu hyfforddiant mewnol.

O ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, rhaid mynd ati i sicrhau bod trefniadau llywodraethu mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y gwasanaeth er mwyn monitro cydymffurfiaeth â rheoliadau a safonau perthnasol.

## Gofal diogel ac effeithiol

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi darparu triniaethau'n ddiogel ac yn effeithiol i gleifion. Gwnaethom ystyried y trefniadau sydd ar waith i esbonio triniaethau i gleifion, sut y caiff anghenion triniaeth eu hasesu a'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio cyfarpar laser.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Polisïau / gweithdrefnau cydsyniad ar sail gwybodaeth
- Rheolau lleol
- Contract Cynghorydd Diogelu rhag Laserau
- Cofnodion hyfforddi'r staff

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn dechrau unrhyw driniaeth. Cesglir hanes meddygol y claf fel rhan o'r ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau bod y driniaeth dan sylw yn addas.

Nodwyd bod angen i'r cleifion gydsynio cyn cael unrhyw driniaeth, ac yna mewn apwyntiadau dilynol. Roedd y broses hon yn cynnwys trafodaeth am y risgiau a'r buddiannau, ynghyd â chanlyniad tebygol y driniaeth dan sylw.

Cadarnhawyd bod Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi'i benodi a'i fod wedi darparu rheolau lleol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r cyfarpar laser yn ddiogel yn ddiweddar. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y rheolau hyn ar gael yn y clinig i'r sawl sy'n gweithredu'r laser gyfeirio atynt pan fo angen.

Cawsom dempled a oedd yn cynnwys nifer o wiriadau dyddiol ac wythnosol y mae'r gwasanaeth yn eu cynnal er mwyn sicrhau bod y cyfarpar laser yn dal i fod yn addas. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwiriadau hyn yn cael eu cofnodi a'u cadw ar y safle.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Roedd y gwasanaeth wedi darparu triniaethau gan ddefnyddio laser Dosbarth 3B/4 nad yw wedi'i restru yn ei amodau cofrestru ag AGIC.

Cyn ei gofrestru i ddefnyddio laser Dosbarth 3B/4, mae AGIC yn cynnal nifer o wiriadau er mwyn sicrhau bod modd defnyddio'r ddyfais yn briodol, ac mai unigolion hyfforddedig a chymwysedig sy'n gwneud hynny. Nid yw'r gwiriadau hyn wedi cael eu cynnal ar gyfer y ddyfais a ddefnyddir ar hyn o bryd, felly ni allem gael sicrwydd bod triniaethau wedi'u

darparu mewn modd sy'n sicrhau lles a diogelwch y claf.

O ganlyniad i hyn, cyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio i'r gwasanaeth. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae AGIC wedi cael sicrwydd digonol ynghylch y camau a gymerwyd i wneud y gwelliannau angenrheidiol.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynnwys cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad yn crynhoi'r gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: City Skin Doctor

Dyddiad y gweithgarwch: 30 Mehefin 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Rhif Cyfeirnod | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod camau lleol yn cael eu cofnodi'n briodol mewn asesiad risg amgylcheddol cynhwysfawr. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br><br>Rheoliad 26 | Caiff yr asesiad risg amgylcheddol ei adolygu a'i ddiweddaru â chamau gweithredu manwl i fodloni'r gofynion. | E Feghenaby | Cyn 15 Awst 2021 |
| 2 | Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod ei bolisi a'i weithdrefn tân wedi'u hadolygu yn unol â gofynion y rheoliadau.<br><br>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau hyfforddiant gloywi warden / marsial tân os yw'r gwasanaeth am barhau i | 26(4)<br><br>21(2)(b) | Caiff y polisi a'r gweithdrefnau tân eu diweddaru'n fuan gan ganolbwyntio ar y fangre a'r asesiad risg lleol.  Byddaf yn gwneud cwrs gloywi er mwyn rhoi hyfforddiant mewnol i'm staff. | E Feghenaby | Cyn 15 Awst 2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ddarparu hyfforddiant mewnol. Yna rhaid bod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf, | | | | |
| 3 | Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod ei bolisi atal a rheoli heintiau yn cael ei adolygu mewn ymateb i COVID-19 a'i fod yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i'r gwasanaeth. Dylid ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyswllt agos a chanllawiau atal a rheoli heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru.<br><br>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal hyfforddiant gloywi atal a rheoli heintiau os yw'r gwasanaeth am barhau i ddarparu hyfforddiant mewnol. Yna rhaid bod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf. | 9(1)(n)<br><br>21(2)(b) | Caiff y polisi atal a rheoli heintiau ei adolygu a'i ddiwygio'n briodol. Byddaf yn gwneud cwrs hyfforddi gyda darparwr dibynadwy er mwyn cael diweddariadau a gwybodaeth sy'n berthnasol i COVID-19. | E Feghenaby | Cyn 15 Awst 2021 |
| 4 | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod ei bolisi a'i weithdrefn diogelu wedi'u hadolygu a'u bod yn cynnwys gweithdrefn leol glir sydd ag enwau cyswllt enwebedig, manylion tîm diogelu'r awdurdod lleol a chyfeiriad at weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.<br><br>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal hyfforddiant gloywi diogelu os yw'r gwasanaeth am barhau i ddarparu hyfforddiant mewnol. Yna rhaid bod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf. | 16<br><br>21(2)(b) | Byddaf yn diweddaru'r polisi diogelu er mwyn bodloni'r gofynion hyn ac yn sicrhau bod fy hyfforddiant yn cael ei wneud yn fuan er mwyn mireinio fy ngwybodaeth a rhoi'r hyfforddiant diweddaraf i'r staff. | E Feghenaby | Cyn 15 Awst 2021 |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy’n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: E Feghenaby

Dyddiad: 26/07/21